

# **Cyngor Sir Ynys Môn**

## **Polisi Pobl Ifanc**

### **Fersiwn 1.0 Ebrill 2016**

#### **Ynglŷn â'r polisi hwn**

Mae'r weithdrefn hon yn disgrifio gofynion Cyngor Sir Ynys Môn o ran amddiffyn pobl ifanc a gyflogir neu sydd ar brofiad gwaith o fewn y Cyngor.

Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn gyfrifoldeb i asesu'r holl risgiau a pheryglon a allai effeithio pobl ifanc, ynghyd â darparu system weithio ddiogel i'w hamddiffyn, fel y bo angen o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 a Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 2002 (Fel y'i diwygiwyd).

Mae'r Rheoliadau'n gofyn i bob cyflogwr sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu hamddiffyn yn y gwaith rhag unrhyw risgiau i'w hiechyd a'u diogelwch, sydd o ganlyniad i'w diffyg profiad, neu absenoldeb ymwybyddiaeth o risgiau presennol neu bosibl, neu'r ffaith nad yw pobl ifanc wedi aeddfedu'n iawn eto.

Cefnogir y Polisi gan adnoddau ar wefan y Cyngor.

## Hanes adolygu

Fersiwn	Dyddiad	Crynodeb o'r newidiadau
1.0	Ebrill 2016	Y ddogfen wedi'i chreu
1.0	May 2017	Dim newidiadau
1.0	Ebrill 2018	Dim newidiadau
1.0	Awst 2019	Dim newidiadau
1.0	Ionawr 2021	Dim newidiadau

Dyddiad yr adolygiad nesaf	
Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu yn:	Medi 2021
Ymgwymerir â'r adolygiad gan:	Y Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol

### Manylion Cyswllt:

Y Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ([healthandsafety@anglesey.gov.uk](mailto:healthandsafety@anglesey.gov.uk))

Rydym yn hapus i ddarparu'r polisi hwn mewn fformatau eraill ar gais. Defnyddiwch y manylion cysylltu uchod os gwelwch yn dda.

# Cynnwys

## 1) CYFLWYNIAD

Mae'r weithdrefn hon yn disgrifio gofynion Cyngor Sir Ynys Môn o ran amddiffyn pobl ifanc a gyflogir neu sydd ar brofiad gwaith o fewn y Cyngor.

Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn gyfrifoldeb i asesu'r holl risgiau a pheryglon a allai effeithio pobl ifanc, ynghyd â darparu system weithio ddiogel i'w hamddiffyn, fel y bo angen o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 a Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 2002 (Fel y'i diwygiwyd).

Mae'r Rheoliadau'n gofyn i bob cyflogwr sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu hamddiffyn yn y gwaith rhag unrhyw risgiau i'w hiechyd a'u diogelwch, sydd o ganlyniad i'w diffyg profiad, neu absenoldeb ymwybyddiaeth o risgiau presennol neu bosibl, neu'r ffaith nad yw pobl ifanc wedi aeddfedu'n iawn eto.

## 2) DIFFINIAD

Mae'r Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 2002 (Fel y'i Diwygiwyd) yn gwahaniaethu rhwng "plentyn" a "pherson ifanc" fel a ganlyn:

Mae "**plentyn**" yn unrhyw un nad yw wedi cyrraedd yr oedran gadael ysgol gorfodol eto, MSLA (16 oed)

Mae "**person ifanc**" yn unrhyw un dan 18 oed

## 3) DYLETSWYDDAU O DAN Y RHEOLIADAU

Mae Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 a Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 (Fel y'i Diwygiwyd), yn gofyn i weithwyr gynnal asesiad risg o'r risgiau i blant a phobl ifanc a gyflogir. Mae hyn i sicrhau bod gwybodaeth angenrheidiol yn cael ei rhoi i weithwyr ac i rieni / gwarcheidwaid plant, i ddiogelu pobl ifanc rhag unrhyw risgiau yn y gwaith.

## 4) CAMAU ATALIOL YN Y GWEITHLE

Bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau iechyd a diogelwch pobl ifanc a leolir o fewn y Cyngor, naill ai ar raglenni profiad gwaith neu oherwydd eu cyflogi. Byddid yn paratoi'n drylwyr cyn i weithwyr / myfyrwyr newydd gyrraedd, gan alluogi cynnal asesiad risg o unrhyw beryglon y gallant fod yn agored iddynt.

Bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn nodi'r gweithgareddau y bydd y myfyrwyr / gweithwyr newydd hyn yn gysylltiedig â hwy, ac yn sicrhau bod yr holl risgiau'n cael eu rheoli gan weithredu system weithio ddiogel.

## **Asesu Risg**

Mae Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 2002 (fel y'i diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i amddiffyn pobl ifanc yn y gwaith rhag risgiau i'w hiechyd a'u diogelwch a bod camau rheoli yn cael eu gweithredu i'w rheoli.

Rhaid ymgymryd â'r asesiad risg iechyd a diogelwch cyn i unigolyn ifanc ddechrau gweithio gydag ystyriaeth o'r ffactorau penodol a ganlyn:

- Gosodiad a chynllun y gweithle a'r safle penodol y byddant yn gweithio ynddo;
- Natur unrhyw gyfryngau ffisegol, biolegol a chemegol y byddant yn agored iddynt, am ba mor hir ac i ba raddau;
- Pa fathau o offer gwaith a ddefnyddir a sut y bydd yn cael ei drin;
- Sut y mae'r gwaith a'r prosesau cysylltiedig yn cael eu trefnu;
- Yr angen i asesu a darparu hyfforddiant iechyd a diogelwch; a
- Risgiau o'r cyfryngau, y prosesau a'r gwaith penodol.

## **Hyfforddiant a Goruchwyliaeth**

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn cydnabod bod hyfforddiant cynefino, ynghyd â goruchwyliaeth briodol, yn arbennig o hanfodol ar gyfer pobl ifanc oherwydd eu hanaeddfedrwydd cymharol a'u hanwybodaeth am yr amgylchedd gweithio. Bydd rheolwyr yn sicrhau y cynhelir asesiad risg o allu a gwybodaeth yr unigolyn cyn ei hyfforddi, er mwyn darparu hyfforddiant a fydd yn dod â'r unigolyn dan sylw i safon briodol a derbyniol o ran cymhwysedd addas.

## **Cyfyngu Gwaith**

Ni chaiff pobl ifanc o dan 18 oed gyflawni gwaith:

- Na ellir ei addasu i gyd-fynd â'u cyfyngiadau corfforol neu feddyliol;
- Sy'n eu rhoi mewn cysylltiad â sylweddau sy'n wenwynig neu sy'n achosi canser;
- Sy'n eu rhoi mewn cysylltiad ag ymbelydredd, neu sy'n eu rhoi mewn cysylltiad â gwres, sŵn neu ddirgryniad eithafol;

Gall pobl ifanc sydd dros yr oedran gadael ysgol wneud y gwaith hwn o dan amgylchiadau arbennig iawn, sef:

- Bod y gwaith yn angenrheidiol ar gyfer eu hyfforddi;
- Bod y gwaith yn cael ei oruchwyllo'n iawn gan unigolyn cymwys; a bod y risg yn cael ei leihau i'r lefel isaf, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol.

## **System Weithio Ddiogel**

Yn ogystal â'r hyfforddiant penodol y bydd arnynt ei angen i gyflawni eu tasgau gwaith penodedig, mae angen i bobl ifanc fod yn ymwybodol o'r rheolau cyffredinol a ganlyn er mwyn sicrhau eu diogelwch a diogelwch eraill, o fewn Cyngor Sir Ynys Môn:

- Nid yw gemau a chastiau yn briodol yn y gweithle gan y gallai ymddygiad o'r fath arwain at anafiadau a all fod yn ddifrifol.
- Rhaid cadw manau lle bydd pobl yn gweithio ac yn cerdded yn daclus. Peidiwch â gadael pethau o gwmpas yn lle gallai pobl faglu neu gerdded i mewn iddynt.
- Mae angen arferion hylendid da ynghyd â defnyddio hufenau atal ('barrier creams') lle bo'n briodol, i atal risgiau i iechyd a diogelwch o eitemau a sylweddau peryglus yn y gweithle.
- Os darperir cyfarpar a dillad diogelwch, mae angen eu defnyddio'n gywir a'u cadw mewn cyflwr da.
- Mae rhedeg yn y gweithle'n beryglus ac felly dylid gwahardd hyn. Rhaid defnyddio llwybrau diogel bob amser.
- Dylid mynd ati i godi a chario pethau yn y modd cywir a dylai goruchwylwyr drefnu cyfarwyddyd a hyfforddiant, a monitro'r defnydd o'r technegau angenrheidiol.
- Rhaid cael hyfforddiant i ddefnyddio ysgolion yn ddiogel. Dylid gwirio ysgolion cyn eu defnyddio ac ni ddylid cerdded ar doeau heb gymryd gofal digonol.
- Defnyddir aer cywasgedig at ddibenion cymeradwy gan bobl cymwys sydd wedi'u hyfforddi. Ni ddylid ei ddefnyddio ar gyfer glanhau peiriannau, meinciau neu ddillad.
- Ni ddylid defnyddio peiriannau oni roddwyd hyfforddiant, gan gynnwys defnyddio giardia diogelwch ac ati.
- Mae angen adnabod arwyddion rhybuddio peryglon sylweddau niweidiol a dilyn cyfarwyddiadau'r goruchwylwr.
- Rhaid cymryd gofal wrth drin sylweddau fflamadwy a rhaid ufuddhau i waharddiadau ysmegu. Mae taflu ysbwriel neu ddeunyddiau ysmegu yn creu perygl tân.
- Rhaid adrodd i'r goruchwylwr ynghylch unrhyw anaf neu bryder o ran diogelwch neu beryglon a nodir.
- Rhaid bod yn gwbl ymwybodol o drefniadau a chatau gweithredu mewn argyfwng ac o ran cymorth cyntaf.

## **Cadw Cofnodion**

Yn ogystal â'r cofnodion iechyd a diogelwch arferol y dylid eu cadw mewn perthynas â gweithgareddau gwaith penodol, dylid cadw'r canlynol mewn perthynas â phobl ifanc.

1. Cofnodion asesu risg ar gyfer yr asesiadau penodol mewn perthynas â phobl ifanc o fewn Cyngor Sir Ynys Môn.
2. Hyfforddiant a gwybodaeth a roir i'r unigolyn ifanc gyda chofnod o gyflawni lefel foddhaol o ran cymhwysedd.
3. Yn achos bod unigolyn ifanc o dan oedran gadael ysgol, cofnod o'r wybodaeth a gyfathrebwyd i'r rhieni.

Oherwydd bod pobl ifanc yn agored i risg ychwanegol yn y gwaith oherwydd eu diffyg gwybodaeth, profiad a'u hanaeddfedrwydd, bydd rheolwyr yng Nghyngor Sir Ynys Môn yn sicrhau y gweithredir y gweithdrefnau a ganlyn i sicrhau diogelwch.

- O ran asesiadau risg a gynhelir ar unrhyw broses neu weithdrefn o safbwynt eu cyflawni gan oedolion profiadol, dylid eu hailasesu yng ngolau profiad yr unigolyn ifanc.
- Rhoir hyfforddiant, cyfarwyddyd a goruchwyliaeth ychwanegol i'r unigolyn ifanc hyd nes y bydd wedi dangos lefel foddhaol o gymhwysedd a gwybodaeth.

## **5) CYFRIFOLDEBAU**

### **Rheolwyr Iechyd a Diogelwch Lefel Un**

Y Prif Swyddog Gweithredol yw'r unigolyn sydd yn bennaf gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth iechyd a diogelwch. Dylai'r Prif Swyddog Gweithredol a'r Prif Swyddogion Gweithredol Cynorthwyol sicrhau bod Penaethiaid Gwasanaeth yn cyflawni eu dyletswyddau fel y nodir o fewn y weithdrefn hon.

### **Rheolwyr Iechyd a Diogelwch Lefel Dau**

Dylai Penaethiaid Gwasanaeth sicrhau bod gan eu hadain neu adran adnoddau priodol er mwyn cydymffurfio â'r weithdrefn hon. Byddai adnoddau'n cynnwys staff, amser a chyllid.

Rhaid i bob Rheolwr Lefel Dau sicrhau bod Rheolwyr Llinell yn cael gwybodaeth, cyfarwyddyd a hyfforddiant digonol. Mae'n hanfodol bod hyn yn cael ei ddarparu i bob unigolyn ifanc o fewn y Cyngor Sir sydd naill ai'n gyflogedig neu ar raglenni profiad gwaith.

## **Rheolwyr Iechyd a Diogelwch Lefel Tri**

Bydd rheolwyr lefel tri yn nodi'r gweithgareddau y bydd pobl ifanc o dan 18 oed / gweithwyr newydd yn gysylltiedig â hwy, ac yn sicrhau bod yr holl risgiau'n cael eu rheoli, drwy ymgymryd ag asesiadau risg a'u hadolygu wrth weithredu'r mesurau rheoli priodol, lle bo angen.

Bydd rheolwyr yn sicrhau y cynhelir asesiad risg o allu a gwybodaeth yr unigolyn cyn ei hyfforddi, er mwyn darparu hyfforddiant a fydd yn dod â'r unigolyn dan sylw i safon briodol a derbyniol o ran cymhwysedd addas.

## **Yr Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch Corfforaethol**

Dylai Ymgynghorydd(wyr) Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ddarparu cyngor ar y weithdrefn hon.

### **Pobl Ifanc**

Bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn sicrhau na chaiff pobl ifanc o dan 18 oed gyflawni gwaith:

- Na ellir ei addasu i gyd-fynd â'u cyfyngiadau corfforol neu feddyliol;
- Sy'n eu rhoi mewn cysylltiad â sylweddau sy'n wenwynig neu sy'n achosi cancer;
- Sy'n eu rhoi mewn cysylltiad ag ymbelydredd, neu sy'n eu rhoi mewn cysylltiad â gwres, sŵn neu ddirgryniad eithafol;

Gall unigolyn/pobl ifanc sydd dros yr oedran gadael ysgol wneud y gwaith hwn o dan amgylchiadau arbennig iawn, sef:

- Bod y gwaith yn angenrheidiol ar gyfer eu hyfforddi;
- Bod y gwaith yn cael ei oruchwylio'n iawn gan unigolyn cymwys; a bod y risg yn cael ei leihau i'r lefel isaf, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol.

Dylai pob unigolyn ifanc gydweithredu â rheolwyr yng nghyswllt materion mewn perthynas ag iechyd a diogelwch. Ni ddylai unrhyw unigolyn/pobl ifanc gamddefnyddio neu ymyrryd ag unrhyw ddyfais neu gyfarpar a ddarparwyd at ddibenion iechyd a diogelwch.

## **Rhagor o Wybodaeth**

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ar 01248 752820